

# Trugaredd

## Darllen: 1 Timotheus 1:2

Daeth un o'r ysgrifenyddion at Iesu a gofyn, 'Prun yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?' (Marc 12:28). Mae Iesu'n ateb trwy ddyfynnu o'r Hen Destament a dweud, 'Y cyntaf yw ... "a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon"' (29–30), gan ychwanegu hefyd, 'Yr ail yw hwn, "Câr dy gymydog fel ti dy hun"' (31). Mae ein cariad at gymydog, yn union fel ein cariad at Dduw, yn tarddu o gariad Duw tuag atom ni. Mae Iesu'n atgoffa'r holwr o'r Hen Destament. Daw'r dyfyniad cyntaf o Deuteronomium 6:5, sef rhan o'r *shema*, sylfaen cred yr Iddew. Hon oedd y frawddeg gyntaf a gaed ar ddechrau pob addoliad Iddewig, a dyma'r adnod gyntaf y byddai pob plentyn yn ei dysgu ar ei gof. Mae'n dweud bod rhaid i ni garu Duw yn gyntaf oll. Daw'r ail ddyfyniad o Lefiticus 19:18, lle dywedir wrthym am garu ein cymydog. Yn y cyd-destun yn Llyfr Lefiticus, golygai hyn bod Iddew yn caru ei gyd-Iddew. Ond mae Iesu'n dyfynnu'r adnod heb unrhyw amod na chyfyngiad. Mae'n cymryd yr hen gyfraith ac yn rhoi ystyr newydd, ehangach iddi. Ond yr hyn sy'n wahanol ydi bod Iesu'n rhoi'r ddau orchymyn gyda'i gilydd. Doedd yr un Rabbi wedi gwneud hynny o'r blaen. I Iesu, y bywyd crefyddol oedd caru Duw a charu cyddyn. Derbyniodd yr ysgrifennydd hynny gan fynnu bod cariad yn well na phoethoffrymau ac aberthau (Marc 12:33). Mor hawdd yw cyfyngu addoliad i bedair wal adeilad crefyddol, yn hytrach na'i wneud yn fater o fyw bob dydd yng nghanol y gymuned.

Yn Efengyl Luc, gwelir un arall o athrawon y Gyfraith yn holi Iesu, 'Athro, beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?' (Luc 10:25). Unwaith eto, mae Iesu'n ateb trwy ddyfynnu'r Ysgrythurau (27). Ond beth yn union yw ystyr y gair 'cymydog' yn Nameg y Samariad Trugarog, a geir yn Luc 10:25–37? Y duedd yn aml yw dweud mai'r cymydog yw'r un sydd angen ein help a'n cymorth – yr un gwan, anghenus a diymadferth. A ninnau, ar y llaw arall yw'r rhai cadwedig – y rhai cryf sy'n barod i ymostwng, yn ein daioni, i gynorthwyo'r truan mewn angen. Ond ai dyna ergyd y ddameg

yn ôl Iesu? Wedi dweud y stori, gofynnodd Iesu pwy oedd wedi bod yn gymydog i'r gŵr a syrthiodd i blith y lladron ar y ffordd o Jerwsalem i Jericho. 'Yr un a gymerodd drugaredd arno,' oedd ateb parod yr athro (37). Y cymydog yw'r un sy'n gwneud trugaredd, nid yr un sy'n derbyn trugaredd. Felly, meddai Iesu wrth y cyfreithiwr, 'Dos, a gwna dithau yr un modd' (37).

Ond oni ddylai'r truan a syrthiodd i afael y lladron garu ei gymydog? Wrth gwrs y dylai. A'r cymydog hwnnw yw'r Samariad. Yr hyn y mae Iesu am i'r cyfreithiwr hwn ddeall yw nad efelychu'r Samariad sydd rhaid iddo'i wneud ond efelychu'r truan a gafodd ei guro gan yr ysbeilwyr. A phwy a wnaeth drugaredd ag ef? Iesu Grist ei Hun. Felly, ein cymydog sy'n gwneud trugaredd â ni. Y bobl sydd mewn angen sy'n gwneud trugaredd â ni. Ffurf ar drugaredd Iesu Grist tuag atom ni yw caniatáu i ni helpu, lliniaru a chynorthwyo'r rhai mewn angen. Mewn gair, mae pawb sydd mewn angen – boed yn ein cymdeithas neu ym mhellafoedd byd – yn esgor ar dosturi Iesu Grist ynom ni. Hwyl, felly, yw'r cymwynaswyr, nid ni. Mae Duw eisiau i ni – ac yn caniatáu i ni – eu helpu, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch' (Mathew 25:40). Yn y meddylfryd hwn, fedrwn ni ddim canmol ein hunain am ein consyrn a'n cymwynasgarwch i eraill. Hwyl sydd wedi gwneud cymwynas enfawr â ni.

### **Myfyrdod pellach:**

Fyddech chi'n dweud bod angen rhoi teitl newydd i ddameg y Samariad Trugarog? Beth fydddech chi'n ei awgrymu?

Ydych chi'n meddwl bod pobl sydd mewn angen yn gwneud tro da a chymwynas â ni?